YSGOL LLANFYLLIN

Mawrth 8fed 2021

Annwyl rieni a gofalwyr,

Yn ychwanegol at y llythyr gan ddeiliad y portffolio ar gyfer addysg yng Nghyngor Sir Powys , ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o'n cynlluniau draft ar gyfer dychwelyd myfyrwyr i ddysgu wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod o Ddydd Llun 15fed o Fawrth hyd Ddydd Gwener y 26ain o Fawrth 2021.

Nodwch fodd bynnag, er fy mod am roi cymaint o rybudd a phosib i chi ar hyn o bryd, cynlluniau dros dro ydynt. Rydym yn gweithio gyda thrafnidiaeth ysgol a'r awdurdod addysg leol i gadarnhau ein cynlluniau.

**Cyfnod Cynradd – trefniadau CA2 (Blynyddoedd 3, 4, 5, a 6)**

Bydd holl ddisgyblion Cyfnod allweddol dau (Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6) yn ôl yn yr ysgol o Ddydd Llun Mawrth 15fed. I baratoi ar gyfer dychwelyd, ni fydd unrhyw addysgu byw ar-lein Ddydd Iau Mawrth 11eg a Dydd Gwener Mawrth 12fed. Defnyddir y ddau ddiwrnod hyn ar gyfer dysgu cyfunol gyda ffocws ar les.

Ar y ddau ddiwrnod yma bydd prosiect yn seiliedig ar weithgareddau Iechyd a lles yn cael ei roi ar dîm dosbarth y mae eich plentyn yn perthyn iddo. Bydd y swigen gweithwyr allweddol hefyd ar agor ar safle'r cyfnod uwchradd am y ddau ddiwrnod hyn.

Ar ddydd Llun Mawrth 15fed, bydd holl ddisgyblion CA2 yn dychwelyd i'r ysgol a bydd cynlluniau ynglŷn â 'swigod' cyswllt yn aros yr un fath ag yr oeddent ar gyfer mwyafrif Tymor yr Hydref.

Bydd yr amser gollwng rhwng 8:45 a 9:00, bydd dosbarthiadau Mrs Jones a Miss Ellis yn dod i mewn i'r iard flaen drwy'r gatiau dwbl . Bydd dosbarthiadau Mrs Waldron a Mrs Davies yn dod i mewn drwy giât prif fynedfa'r dderbynfa.

Darperir clwb brecwast o 8 o'r gloch y bore a hefyd bydd Bobol Bach yn cael ei ddarparu tan 5:15y.p, y ddau ar safle'r cyfnod cynradd.

Bydd gofyn i ddisgyblion ddod a byrbryd iachus ar gyfer amser egwyl a diod hefyd. Bydd trefniadau amser cinio'r un fath a bydd cinio ysgol ar gael.

Ni fydd disgwyl i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol, dylid gwisgo dillad cynnes, synhwyrol, i ganiatáu llawer o ddysgu yn yr awyr agored.

**Cyfnod Uwchradd – Blynyddoedd 7-13**

Ni fydd unrhyw addysgu byw ar-lein Ddydd Gwener Mawrth 12fed. Bydd hwn yn ddiwrnod lles ar gyfer disgyblion y cyfnod uwchradd. O Ddydd Llun Mawrth 15fed, bydd Blynyddoedd 11 a 13 a blynyddoedd cymhwyster eraill (blynyddoedd 10 a 12) yn mynychu'r ysgol ar sail rota.

Mae'r cynllun trosodd, fel y nodir yn llythyr Powys ac fel y cynghorwyd gan lywodraeth Cymru, yn blaenoriaethu dysgu wyneb yn wyneb i flynyddoedd 11, 12, a 13, gyda blwyddyn 10 yn dilyn, ac yna blynyddoedd 9, 8 a 7.

**Cysylltwch / Contact**

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ**
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

**Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team**

**Pennaeth / Headteacher**:
Mr Dewi Owen
**Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher**:
Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteachers**

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

**Rheolwr Busnes/Business Manager**
Mrs Sarah Hunter

**CADY/ALNCO**
Mrs Rhiannon Molyneux

YSGOL LLANFYLLIN

| | Wythnos 1 - 15.3.21 | | | | | | Wythnos 2 - 22.3.21 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llun** | **Maw** | **Mer** | **Iau** | **Gwe** | | **Llun** | **Maw** | **Mer** | **Iau** | **Gwe** |
| **13** | Yn ysgol | Yn ysgol | Yn ysgol | Yn ysgol | Yn ysgol | **13** | Ar lein | Ar lein | Ar lein | Ar lein | Ar lein |
| **12** | Ar lein | Ar lein | Ar lein | Ar lein | Ar lein | **12** | Yn ysgol | Yn ysgol | Yn ysgol | Yn ysgol | Yn ysgol |
| **11** | A | B | A | B | Ar lein | **11** | Ar lein | A | B | A | B |
| **10** | Ar lein | Ar lein | Ar lein | Ar lein | A | **10** | B | Ar lein | Ar lein | Ar lein | Ar lein |
| **9** | Ar lein | Ar lein | Ar lein | Ar lein | A | **9** | Ar lein | Ar lein | Ar lein | Ar lein | B |
| **8** | Ar lein | Ar lein | Ar lein | A | Ar lein | **8** | Ar lein | Ar lein | Ar lein | B | Ar lein |
| **7** | Ar lein | Ar lein | A | Ar lein | Ar lein | **7** | Ar lein | Ar lein | B | Ar lein | Ar lein |

**Cadw pellter cymdeithasol.**

Disgwylir i ddisgyblion bellhau'n gymdeithasol oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth aelodau staff pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Bydd hyn yn ei wneud yn ofynnol bod myfyrwyr yn dychwelyd i'r ysgol ar sail rota. Bydd hyn yn golygu bod disgyblion mewn poblogaeth dosbarth llai ac ni fydd grwpiau blwyddyn gyfan yn dychwelyd ar yr un adeg. Bydd dosbarthiadau yn cael eu gosod mewn ffordd sy'n caniatáu i bellter cymdeithasol ddigwydd.

**Blynyddoedd 12 a 13** - pawb yn yr ysgol yn unol â'r amserlen uchod os ydynt yn cael gwersi ar y dydd hynny fel rheol.

**Blynyddoedd 10 ac 11** – i mewn ar sail rota, hanner grŵp blwyddyn ar y tro.

**Blynyddoedd 7, 8 a 9** - treulio hanner diwrnod yn yr ysgol, 10yb - 1:45yp, a bydd cludiant arwahan yn cael ei drefnu ar eu cyfer i ddod i mewn ac i ddychwelyd o'r ysgol gan sicrhau cadw pellter cymdeithasol oddi wrth grwpiau blynyddoedd eraill.

**Grŵp A.** Bydd disgyblion gyda chyfenw yn cychwyn efo **A-J** i mewn e.e. dylai Paul Jones ym mlwyddyn 11 fod i mewn Dydd Llun a Dydd Mercher wythnos 1 a Dydd Mawrth a Dydd Iau wythnos 2 yn unig.

**Grŵp B** Bydd disgyblion gyda chyfenw yn cychwyn efo **K-Z** i mewn e.e. dylai Megan Williams ym mlwyddyn 8 fod i mewn Dydd Iau wythnos 2 yn unig

**Gorchuddion wyneb.**

Bydd gwisgo gorchudd wyneb yn orfodol i holl staff ac i ddisgyblion o oedran ysgol uwchradd drwy gydol yr amser y maent i mewn yn adeilad yr ysgol, yn cynnwys y dosbarth. Disgwylir hefyd i orchuddion wyneb gael eu gwisgo ar holl gludiant cartref i'r ysgol.

**Cysylltwch / Contact**

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ**
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

**Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team**

**Pennaeth / Headteacher**:
Mr Dewi Owen
**Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher**:
Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteachers**

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

**Cysylltwch / Contact**

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ**
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

YSGOL LLANFYLLIN

**Dysgu cyfunol a gwersi byw.**

Bydd gwersi cyfunol a gwersi byw drwy Microsoft Teams yn parhau drwy gydol y cyfnod trosglwyddo hwn ar gyfer pob disgybl sydd ddim yn yr ysgol yn gorfforol.

Sut bynnag, rhaid nodi na fydd rhai pynciau ymarferol yn medru gwneud hyn gan y bydd ganddynt rhai disgyblion yn yr ysgol yn cwblhau gweithgareddau ymarferol yn y gweithdai a'u hystafelloedd dosbarth.

**Gwisg Ysgol**

Yn unol â holl ysgolion Powys bydd ein rheolau gwisg ysgol yn cael eu llacio o ddydd Llun Mawrth 15fed tan ddiwedd y tymor. Gall disgyblion wisgo gwisg ysgol os dymunant, ond nid yw hyn yn orfodol. Dylai disgyblion wisgo eu gwisg ymarfer corff os oes ganddynt wers AG ar y diwrnod y maent yn mynychu'r ysgol.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu ein myfyrwyr yn ôl i'r ysgol. Byddaf yn cysylltu â chi eto yn ddiweddarach yr wythnos hon gyda'r cynlluniau manwl a therfynol ar gyfer y dychweliad graddol hwn i'r ysgol. Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni yma yn yr ysgol os oes gennych unrhyw gwestiwn neu ymholiad.

Yn gywir,

Dewi Owen

Pennaeth.

**Cysylltwch / Contact**

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ**
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

**Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team**

**Pennaeth / Headteacher**:
Mr Dewi Owen
**Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher**:
Mr Llŷr Thomas

**Penaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteachers**

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

**Cysylltwch / Contact**

**Llanfyllin, Powys SY22 5BJ**
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk